

# Cyd-ddisgwyliadau: Gwaith Sesiynol ar gyfer Gweithredu Cymdeithasol yn ProMo-Cymru

Mae'r wybodaeth isod yn amlinellu manylion am yr hyn disgwylir gennych chi, a'r hyn gellir ei ddisgwyl gennym ni. Fe ddylai hyn eich helpu i wneud penderfyniad ynglŷn â pharhau gyda'r cais i ddod yn weithiwr sesiynol. Mae hwn yn swydd hunangyflogedig.

Y brif linell gymorth ydy Meic: <https://www.meiccymru.org/cym/>

Yn ogystal, rydym yn cynnal llinellau gymorth porth eiriolaeth i oedolion:

[www.mieg.cymru](http://www.mieg.cymru)

[www.llaisadewispenybontarogwr.cymru](http://www.llaisadewispenybontarogwr.cymru)

[www.pecf.cymru](http://www.pecf.cymru)

## Yr hyn rydym ei angen / yn ei ddisgwyl gennych chi:

- Cyflwyno eich CV - manylion am eich hanes cyflogaeth, dysgu a datblygiad, gan gynnwys dau ganolwr (un proffesiynol, un personol), a'i yrru i Adnoddau Dynol (AD)
- Cyflwyno datganiad personol yn egluro'r rheswm pam eich bod yn dymuno gweithio i Weithredu Cymdeithasol a'r hyn y gallech chi ei gynnig i'n buddiolwyr, yn ogystal â thîm Eiriolwyr Gynghorwyr Llinell Gymorth, a'i yrru i AD (Er cyfeirio, gweler Disgrifiad Swydd a Manyleb y Person ar ein gwefan)
- Meddu ar wiriad DBS cyfoes (llai nag 1 oed), a gyrru copi ohono i AD (efallai bydd angen cais newydd yn ddibynnol ar amseriad pan rydych chi'n cael eich recriwtio fel gweithiwr sesiynol)
- Gydag amgylchedd gweithio gartref addas, a mynediad i offer TG angenrheidiol, fel gliniadur, cyfrifiadur desg ayb. ffôn tŷ, a mynediad i fand eang dibynadwy, gofod distaw i dderbyn a siarad gyda phob cyswllt yn breifat - bydd hyn hefyd yn destun i hunanasesiad gweithio o gartref, a chwblhau archwiliad technegol.
- Gallu i gymryd rhan mewn hyfforddiant anwytho (tra bod cyfyngiadau a rheolau Covid-19 mewn gweithrediad mae'n debyg mai ar-lein trwy Zoom, neu debyg, y bydd hyn yn digwydd yn bennaf)
- Gallu i gymryd rhan mewn cyfleoedd dysgu a datblygu cynigir gan Meic / ProMo-Cymru, fel y gallech chi gyflwyno ein holl wasanaethau llinell gymorth; gan gychwyn a chanolbwyntio ar Meic
- Gallu ymgysylltu gyda chefnogaeth a goruchwyliaeth
- Bydd angen i chi gofrestru gyda HMRC fel hunangyflogedig a gallu darparu cod cyfeirnod treth unigryw ('UTR') fel tystiolaeth eich bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth y HMRC - nid yw hyn yn

angenrheidiol yn y cyfnod o wneud cais, a bydd ProMo-Cymru yn darparu gwybodaeth bellach fel sydd ei angen...

### **Beth gallech chi ei ddisgwyl gan ProMo-Cymru:**

- Hyfforddiant anwytho fel sydd angen, gan gynnwys, ond ddim yn gyfyngedig i: sgiliau llinell gymorth, sgiliau hyfforddi / ymyrraeth, trin galwadau / bas data a sgiliau cadw cofnodion, diogelu, hunanladdiad / hunan-niwed, eiriolaeth, hawliau plant – oddeutu 20 awr i gyd, yn ddibynnol ar sgiliau a phrofiad presennol
- Mynediad i / cyllid ar gyfer hyfforddiant ychwanegol fel sydd ei angen, ac i gael ei gwblhau o fewn amser sydd wedi'i gytuno, gan gynnwys ond ddim yn gyfyngedig i: ddiogelu, hunanladdiad / hunan-niwed, eiriolaeth, hawliau plant
- Cefnogaeth a goruchwyliaeth
- Cyfleoedd i gysylltu gyda sesiynau dysgu a datblygu fel cyfnewid arferion, goruchwylio grŵp, hyfforddiant mewnol
- Cyfleoedd i weithio sifftiau cyfan neu rannol, unrhyw amser rhwng 8yb a hanner nos, unrhyw ddiwrnod yr wythnos, gan gynnwys penwythnosau, a byddech yn cael eich hysbysu i'r rhain wrth fewngofnodi i "When I Work"
- Nid allem warantu oriau wedi'u gosod
- Gallem ganslo dyraniad gwaith, dan amgylchiadau anrhagweledig / anfwriadol, a ni fydddech yn derbyn taliad yn yr achos yma - byddem yn ceisio sicrhau bod cymaint o rybudd â phosib yn cael ei roi
- Cyfeiriad e-bost Meic / Gweithredu Cymdeithasol a derbyn a gosod manylion mewngofnodi / mapio perthnasol
- Taliad o: £14 am bob awr sydd wedi'i weithio, a chostau teithio cytunwyd arno
- Bydd angen cyflwyno anfonebau yn electronig ar ddiwrnod diwethaf bob mis sydd wedi'i weithio, gyda taflen(ni) amser sydd yn cyd-fynd. Bydd anfonebau yn cael eu gyrru ymlaen i'r Arweinydd Ymarfer, i'w awdurdodi gyda'r taliad yn cael ei wneud o fewn 14 diwrnod o awdurdodiad

### **Manylion cyswllt:**

Adnoddau Dynol: [pat@promo.cymru](mailto:pat@promo.cymru)

Pennaeth Gweithredu Cymdeithasol: [steph@promo.cymru](mailto:steph@promo.cymru)

Arweinydd Gweithrediadau: [nic@promo.cymru](mailto:nic@promo.cymru)

### **Manylion gwefan:**

[www.promo.cymru](http://www.promo.cymru)

